
Y **Tyrannasaurus Rex** oedd brenin y  deinosoriaid. Roedd e dros 12 metr o hyd, ac yn pwyso tua 7 tunnell (sef pwysau eliffant mawr) ac roedd ganddo 58 o ddannedd miniog iawn, iawn!



Roedd **Triceratops** yn byw mewn praidd (sef grŵp) gyda'r Triceratops eraill.



Roedd yn defnyddio'r tri chorn miniog er mwyn ymosod ar ddeinosoriaid eraill.

**Owranosorws** ydy'r deinosor yma. Mae ganddo hwyl hir, esgyrnog ar ei gefn. Pan oedd e'n oer roedd e'n troi'r hwyl at yr haul. Pan oedd yn boeth roedd yn troi'r hwyl at y gwynt er mwyn oeri!




Dim ond tua 90cm o hyd ydy'r **Ffabrosorws**. Roedd ganddo freichiau a dwylo cryf er mwyn tynnu dail o'r coed i'w bwyta.




Roedd ei goesau hir yn helpu i redeg yn gyflym.

**Grafitholws** ydy'r deinosor yma. Edrychwch ar ei ben gwastad.



Roedden nhw'n hoffi chwarae gêm taro pennau! Aw-mae hynna'n swnio'n boenus.

Roedd y **Parasoroloffws** yn defnyddio'r tiwb hir ar ei ben er mwyn gwneud sŵn uchel. Roedd yn gallu rhybuddio ei ffrindiau fod perygl yn agos.



Mae'n hawdd adnabod y **Gastonia** achos ei gynffon bigog!



Roedd yn gallu amddiffyn ei hun rhag deinosoriaid eraill oedd eisiau ei fwyta.

Dyma'r **Troodon**. Edrycha ar y crafangau miniog yna! Roedd gan y Troodon lygaid fel llygaid cath ac roedden nhw'n ei helpu i hela yn y nos.



# Beth nesaf?

Darllenwch y cliwiau i ffrind, ydyn nhw’n gallu dyfalu pa ddeinosor ydyw?

Torrwch y cardiau i wahanu’r llun a’r testun a chwaraewch gêm paru’r llun â’r disgrifiad.

Beth am greu llun a disgrifiad o ddeinosor dychmygol eich hunan. Gallwch gymysgu rhannau corff deinosoriaid.

Defnyddiwch y sgrîn werdd i gyflwyno bwletin newyddion am y deinosor sydd wedi ei weld yn yr ardal leol dros y penwythnos.

